**Eitem ar yr agenda: 8**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU |
| **DYDDIAD:** | 19 MEDI 2005 |
| **ADRODDIAD GAN:** | TRYSORYDD |
| **PWNC:** | ALLDRO AMCANOL 2005-2006 |

1. Mae'r atodlen ynghlwm, sy'n cynnwys yr alldro amcanol am y flwyddyn ariannol 2005-2006, yn dangos y bydd tanwariant o £360,492.

2. Y prif faes lle ceir tanwariant yw mewn cyflogau gan fod y lefelau gweithgarwch yn is na'r disgwyl, sef £283,067. Serch hynny, mae'r tanwariant amcangyfrifedig wedi ei gyfrifo yn seiliedig ar y lefelau gweithgarwch ar hyn o bryd, ac fe allai newid yn sylweddol o fewn y saith mis nesaf oherwydd ffactorau annisgwyl fel y tywydd.

3. Mae'r gwariant ar adeiladau'n dangos tanwariant o £3,173. Roedd y gyllideb wreiddiol wedi amcangyfrif rhent blwyddyn lawn am y Pencadlys Newydd, swyddfeydd Sir y Fflint a swyddfeydd Wrecsam, ond gan na fydd yr adeiladau wedi cael eu defnyddio am flwyddyn lawn, yr amcangyfrif yw y bydd £35,000 o arbedion ar rent. Serch hynny, yn gwrthbwyso'r arbedion hyn mae cynnydd yn y Trethi Annomestig oherwydd i'r Swyddfa Brisio ailbrisio adeiladau'r Awdurdod Tân ac Achub, ac mae'r amcangyfrifon ar hyn o bryd yn dangos £35,000 o orwariant.

4. Mae'r gost i'r cyfrif refeniw cyfunol o ariannu'r Rhaglen Gyfalaf wedi codi £30,667 yn uwch na'r gyllideb wreiddiol, mae hyn oherwydd i'r Gwariant Cyfalaf yn 2004-2005 fod yn uwch na'r disgwyl oherwydd i wariant dreiglo drosodd o flynyddoedd blaenorol.

5. Mae cost Yswiriant £29,800 yn is na'r gyllideb wreiddiol, mae hyn oherwydd i'r codiannau fod yn is na'r disgwyl.

6. Ar y cyfan, mae'r amcangyfrif ar gyfer incwm £95,000 yn uwch na'r disgwyl oherwydd nifer o ffactorau; incwm llog yn uwch na'r disgwyl oherwydd y balansau uchel sydd gan yr Awdurdod; staff y Gwasanaeth Tân ac Achub wedi eu secondio i Goleg y Gwasanaeth Tân; ac incwm ychwanegol am Alwadau am Wasanaethau Arbennig.

## 7. ARGYMHELLIAD

**Mae'r alldro amcanol yn seiliedig ar y lefelau gweithgarwch presennol ac fel y dywedir yn y adroddiad, fe allai hyn newid. Felly, yr argymhelliad yw nodi'r tanwariant ac ystyried sut i ddelio â'r tanwariant yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ac Achub pan fydd ffigwr alldro newydd ar gael.**

*KW FINCH*
**<u>Trysorydd</u>**
**6 Medi 2005**